

## **Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 13 yn gynwysedig.**

### **1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau**

Yn bresennol: John Graystone (yn Cadeirio), Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Caroline Davies, Gareth Cork, Stephen Nicholls, Dafydd Rhys, David Elis-Williams; Cathy Clark, Julie Cook, Tim Palazon (trwy ddolen fideo). Roedd cworwm drwy gydol y cyfarfod.

Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Michelle Kerswell (Rheolwr y Cwricwlwm a'r Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg), Stephen Thomas (Ysgrifennydd/Clerc y Cwmni), Catrin Gilkes (cyfieithydd ar y pryd); Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau – trwy ddolen fideo).

Yn Mynychu hefyd: Joy Williams a 4 dysgwraig AOC|ALW (cofnodion 1 a 2); Raoul Humphreys (cofnodion 1 i 4); Jeff Greenidge (cofnodion 1 i 4 – trwy ddolen fideo).

Ymddiheuriadau: Salamatu Fada, Chris Franks, Iwan Hywel, Jenni Jones-Annetts, Daryl Leeworthy, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Suzanne Samuel, Guy Wallace Smith; Mark Baines (Pennaeth y Cwricwlwm a Pherfformiad).

### **2. Trafodaeth â'n grŵp gwâdd o ddysgwyr a'u tiwtor**

Gwnaed cyflwyniadau gan Joy Williams, tiwtor, a phedair dysgwraig AOC|ALW a oedd yn astudio Llythrennedd Digidol yn ei dosbarth yn Llyfrgell Llai. Siaradont am amrywiaeth y sgiliau'r oeddent wedi'u hennill – o ddefnyddio iPads yn ddeheuig a defnyddio rhaglen Mail Merge, i sut i gysylltu â pherthnasau yn Awstralia dros y we; o wneud cofnodion ar liniadur, i sut i gadw'n ddiogel yn ariannol wrth weithredu ar-lein. Roedd offer TG da ar gael yng nghyfleuster Llai ac roedd aelodau'r dosbarth yn cyfarfod yn gymdeithasol y tu hwnt i'r tymor hefyd.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau'r Cyngor, dywedodd y dysgwyr eu bod wedi dysgu am y cwrs ar lafar a thrwy hysbysebion ar hysbysfyrddau yn y Llyfrgell. Roeddent o'r farn bod potensial am fwy o hysbysebu corfforol y tu allan i'r Llyfrgell ac yn y cylchgrawn hysbysebu rhad ac am ddim lleol hefyd: credant mai technegau marchnata 'traddodiadol' fyddai'n gweithio orau ar gyfer cwrs o'r fath.

**Addawodd Michelle Kerswell fynd ar drywydd eu syniadau hyrwyddo, a'u hanesion fel astudiaeth(-au) achos posibl ar gyfer y Sefydliad.**

### **3. Cyflwyniad gan Raoul Humphreys: Strategaeth Datblygu Busnes, Tachwedd 2019**

Darparwyd cyflwyniad sleidiau, i'r mynychwyr yn Wrecsam yn unig. Pwysleisiodd Raoul Humphreys fod her drawsnewidiol ar y gweill, oherwydd gallai cyfyngiadau cyllido roi'r Sefydliad yn y fantol yn gymharol fuan pe na bai mentrau newydd yn llwyddiannus. Esboniodd y system sgorio dosbarthu yr oedd wedi'i defnyddio ar gyfer y chwe opsiwn datblygu busnes a a ddadansoddwyd yn ei adroddiad, er yr oedd yn cydnabod bod opsiwn pragmatig, yn pontio'r ffiniau rhyngddynt, yn bodoli hefyd. O ran y ddarpariaeth bresennol, er bod perthynas dda ag undebau llafur a rhai enghreifftiau boddhaol o waith gyda

chyflogwyr penodol, yn enwedig ym maes y 'gweithwyr proffesiynol cymunedol', prin oedd y gwaith busnes i fusnes uniongyrchol ac roedd bach iawn o recriwtio dysgwyr (h.y. 'defnyddwyr') yn uniongyrchol. Roedd o'r farn bod hwn yn faes parod i'w ddatblygu'n sylweddol. Roedd sail cyflogaeth gytundebol a throsiant tiwtoriaid – 'lefel ymgysylltiad tiwtoriaid' – yn ffactorau a oedd o bosibl yn gwanhau yn ei farn ef, oherwydd bod llawer yn naturiol yn ceisio mwy o sicrwydd o ran gwaith rywle arall; serch hynny, credai eu bod yn fwy pwysig fel recriwtwyr myfyrwyr ac yn 'werthwyr' i sefydliadau eraill na'r hyn oedd yn cael ei gydnabod ar hyn o bryd, felly dylent fod yn rhan allweddol o unrhyw strategaeth fusnes. Roedd hyn yn arbennig oherwydd byddai arian posibl presennol yr UE ar gyfer prosiectau â phartneriaid yn lleihau'n sylweddol ar ôl y 2 flynedd nesaf, felly gallai helpu gyda thrawsnewid ond ni fyddai'n cynrychioli ffynhonnell incwm gynaliadwy. Roedd argymhellion penodol a wnaed yn yr adroddiad eisoes yn cael eu dilyn i fyny gan uwch staff, a oedd â gwybodaeth dda am y 'farchnad' addysg; gallai ail gyfres o argymhellion gynnwys defnyddio rhywfaint o gronfeydd ariannol wrth gefn y sefydliad, felly byddai angen ystyried hynny ymhellach cyn gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, roedd hi'n gadarnhaol ar y cyfan fod gan y Sefydliad gryfder mawr o ran personél a bod cronfeydd wrth gefn ar gael, y gellid eu gwario.

Wrth ymateb, a hithau'n nodi y byddai cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau yr wythnos ganlynol yn edrych ar gynigion ar gyfer defnyddio rhan o'n cronfeydd wrth gefn, dywedodd Kathryn Robson bod ganddi bryderon am y pwyslais a roddwyd yn y Strategaeth ar allu staff presennol i gyflawni'r gwaith datblygu busnes ychwanegol hwn, yn hytrach na rhoi mwy o bwyslais ar fynd ar drywydd grantiau. Fe wnaeth Julie Cook grybwyll Wales TUC Cymru fel ffordd o gael at ystod o gyflogwyr â chysylltiadau agos â'r corff hwnnw. Cyfeiriodd Dafydd Rhys at y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cysylltiadau lleol a chymunedol, a chysiau penodol yn rhanbarthol wedi'u haddasu yn ôl anghenion, fel ffyrdd a oedd eisoes ar gael o ymestyn ein cyrhaeddiad ymhellach. Gwnaed y pwynt mai dim ond 6 thiwtor oedd ar gontractau amser llawn, yn dilyn yr arbrawf rhagarweiniol (a bod 3 arall wedi colli'u swyddi dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd bod cyrsiau Mynediad ym Mhlas Tan y Bwlch wedi dod i ben). Derbyniodd Raoul Humphreys y byddai symud yn bennaf i diwtoriaid llawn-amser fel rhan o fodel busnes diwygiedig yn her, a'i fod yn groes braidd i ethos y sefydliad. Ond, cyfeiriodd at brofiad y 'Presgripsiynau ar gyfer Dysgu' yng Nghernyw a chroes-gymhorthdal ar gyfer cyrsiau 'abwyd' fel ffordd o ddiwygio trefniadaeth y sefydliad ymhellach.

Ym marn Toni Schiavone, roedd angen i'r Sefydliad ymateb yn well i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan eu cofleidio yn hytrach na chwyno amdanynt (fel y gwnaed ambell dro). Yn sicr, dylai AOC|ALW anelu at ddylanwadu ar y blaenoriaethau hynny dros gyfnod er mwyn iddynt gyd-fynd â'n gweledigaeth yn well, ond roedd angen cael mwy o groesffrwythloni arfer da ar draws rhanbarthau, a mwy o bwyslais ar addysg yn y gweithle, lle'r oedd £140 miliwn ar gael yn flynyddol, gan gynnwys ym maes prentisiaethau, a dadlau achos dros gynnig addysg iaith Gymraeg i ffoaduriaid. I'r gwrthwyneb, dywedodd David Elis-Williams fod rhywbeth braidd yn anochel am Opsiwn BD1 – cynyddu nifer y dysgwyr newydd ar raglenni presennol a oedd yn codi tâl – yn dod ar y brig o ran y meini prawf a ddefnyddiwyd, gan ein bod yn rhwym i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Eto, y pwynt cyson a wnaed yn ein Cofrestr Risg oedd yr angen i arallgyfeirio o'n 90% a mwy o ddibynniaeth ar gyllid Llywodraeth Cymru. Cytunodd Raoul Humphreys bod angen camu i ffwrdd rhag y monopoli hwnnw bron, ond roedd profiad yn dweud wrtho y byddai gwneud hynny yn anodd tu hwnt yn y tymor byr ac y gallai gymryd 3 blynedd a mwy i'w gyflawni: dyma felly pam roedd rhwyfaint o ymarferoldeb wrth wraidd rhai o'r argymhellion. Gan fod pob sefydliad addysgol yn ymateb i bwysigrwydd arallgyfeirio yn yr hyn yr oeddent yn ei ddarparu, roedd y ffaith bod gan golegau AB ac eraill fwy o lawer o adnoddau ariannol a dynol i ymrwymo i waith newydd o'r fath yn golygu y byddai, felly, yn debygol o fod yn farchnad orlawn, heblaw yn y meysydd arbenigol yr oedd angen i AOC|ALW eu llenwi.

Crynhodd John Graystone y drafodaeth a gafwyd. Bu cymeradwyaeth mewn egwyddor i'r Strategaeth a'r dadansoddiad a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith. **Cytunwyd y byddai'r Uwch Dîm Arwain a'r Pwyllgor**

**Adnoddau yn edrych yn fanylach yn awr ar argymhellion y Strategaeth ac y byddent yn rhoi sylwadau pellach i'r Cyngor ar sail yr argymhellion.**

#### **4. Cyflwyniad gan Jeff Greenidge: Ailstrwythuro Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru a Gosod AOC|ALW yn Gorff Strategol Cenedlaethol**

Roedd cyflwyniad PowerPoint eto ar gael i'r mynychwyr yn swyddfa Wrecsam yn unig ei weld. Dywedodd Jeff Greenidge ei fod o'r farn bod y Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned eisoes yn ychwanegu gwerth yng Nghymru: ar lefel bersonol, nid oedd wedi'i argyhoeddi y byddai ailstrwythuro, a chreu Corff Strategol Cenedlaethol, yn gwella pethau o reidrwydd. Roedd wedi gweld a darllen adroddiadau am lecynnau cryf o weithgarwch addysgol da a oedd yn cael ei wneud gan AOC|ALW mewn rhai rhanbarthau: teimlai fod y rhain yn cynnig y sylfaen ar gyfer 'buddion cyflym' i'r Sefydliad, a oedd yn ymarferol trwy weithio yn unol â blaenoriaethau'r llywodraeth a chanolbwyntio ar effaith cyrsiau. Soniodd am arfer da a gyflawnwyd mewn mannau eraill – yn Rochdale, a thrwy fentrau Nuffield Health. Roedd y rhain yn enghreifftiau o dalu'n ôl ar fuddsoddiad trwy gyfrannu at elfennau eraill o weithgarwch a pholisï'r llywodraeth, er enghraifft iechyd neu'r newid yn yr hinsawdd.

Cydnabu Kathryn Robson bod mwy o drafod wedi bod ar lefelau uwch addysg yn ddiweddar am fwy o gydweithredu rhwng darparwyr presennol, a allai yn wir olygu nad oedd yna symud tuag at greu Corff Cenedlaethol fel Cam 2 y cynigion. Defnyddioldeb y darn penodol hwn o waith ymhlith pethau eraill, serch hynny, oedd dangos pa mor wael oedd AOC|ALW wrth ddarparu tystiolaeth o gynnydd mewn addysg a bywyd ymhlith ein dysgwyr ac o effaith ehangach yr hyn a wnaem. I'r gwrthwyneb, dywedodd Jeff Greenidge ei fod o'r farn bod y Sefydliad yn eithaf gwan mewn gwirionedd wrth ddangos o ble roedd ei ddysgwyr yn dechrau, yn nhermau addysgol sylfaenol; byddai gwella hynny yn ei dro yn helpu i ddangos cynnydd a'r effaith a gyflawnwyd. Gellid adlewyrchu hyn oll mewn newidiadau yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu cynnig o ran adroddiadau hunanasesu gan sefydliadau, lle y gallai AOC|ALW gynnig sylfaen gwahanol ar gyfer yr effaith a gyflawnir.

#### **5. Adroddiad y Prif Weithredwr, Tachwedd 2019**

Esboniodd Kathryn Robson fformat yr Adroddiad, a oedd wedi'i addasu ychydig, gydag adran gau yn cynrychioli'r targedau a osodwyd ar gyfer blaenoriaethau amrywiol. Soniodd am arolygiad cadarnhaol Estyn ar addysg oedolion yng Ngwynedd a Môn, a oedd newydd orffen, lle y bu cydweithredu da rhwng AOC|ALW a Grŵp Llandrillo Menai. Gobeithid defnyddio rhai o'r casgliadau ohono i ddylanwadu ar bolisïau ehangach Llywodraeth Cymru yn y maes – er enghraifft ar gefnogi mwy o addysg heb ei hachredu. Roedd Julie Cook yn hapus i weld, yn adran 4.2, fod y sefydliad yn ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, gan ofyn a allai aelodau'r Cyngor weld yr ymatebion hynny. **Cytunwyd y byddai aelodau'r Cyngor yn cael copïau fel mater o drefn yn y dyfodol, fel rhan o'r broses o ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.**

Bu mymryn o ddirywiad yn y data Cwblhad, Cyrhaeddiad a Llwyddiant ar gyfer 2018-19 am y rhesymau a amlinellwyd yn y ddogfen: roedd cyflawni ffigurau'r Cymharydd Cenedlaethol yn amcan cyffredinol o hyd, serch hynny. Ychwanegodd John Graystone bod trafodaeth wedi'i chynnal yn ystod y cyfarfod â'r Gweinidog Addysg ym mis Hydref ar y gostyngiad yn nifer y canolfannau ieuencid yng Nghaerdydd dros y blynnyddoedd diwethaf: dylai AOC|ALW ddefnyddio'i enw da mewn gwaith ieuencid a chymuned i gryfhau ei sefyllfa fel grym cydlyn yn y maes hwnnw. O ran cyfarfod i ddod gyda chynrychiolwyr yr heddlu, crybwyllodd Toni Schiavone y posibilrwydd o bwysleisio addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r lluoedd. Nodwyd bod y defnydd o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn wedi bod yn dda yn 2018-19 ond nid felly'r arian Cymorth Dysgu Ychwanegol; defnyddiwyd llai na 10% o'r dyraniad hwnnw. I baratoi ar gyfer

cyflwyno'r ddeddfwriaeth ar Anghenion Dysgu Ychwanegol, rhagwelwyd y byddai mwy o ymwybyddiaeth yn cael ei chodi ymhlith staff o'r ffynhonnell gyllid benodol honno.

**Cymeradwywyd y Gwerthoedd Sefydliadol diweddaedig.** Roedd Dafydd Rhys wedi gosod y rhain yn erbyn tabl gan Athrofa Technoleg Massachusetts yn mesur diwylliant o fewn sefydliadau, ac roedd AOC|ALW wedi sgorio'n gadarnhaol mewn 3 o'r 4 dangosydd allweddol.

## 6. Y Gofrestr Risg ar gyfer Tachwedd 2019

Cafwyd trafodaeth ar sut byddai'r risgiau oedd yn berthnasol i waith ymgynghorol Raoul Humphreys (1.1.1) ar gyllid a datblygiad busnes yn gyson â risg 1.1.3, sef methu gallu dylanwadu ar strategaethau cyllid a chyflawni pwysig. O ran rôl y Rheolwr Datblygu Busnes, adroddwyd bod ymateb mwy cadarnhaol o ran ansawdd a nifer wedi bod i ailhysbyseb diweddar y swydd, yr oedd ei dyddiad cau drannoeth y cyfarfod.

## 7. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 23 Medi 2019 a materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion y trafodion Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Dragon, Abertawe yn gofnod cywir. Trafodwyd dau fater yn y cofnodion ymhellach:

**Cofnod 2 – Ymadawiadau aelodau'r Cyngor:** darllenodd y Cadeirydd lythyr a gafwyd y bore hwnnw gan Nick Taylor, ymddiriedolwr/llywodraethwr etholedig ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru, yn cyhoeddi ei fod yn ymddiswyddo ar unwaith o'r rôl honno (ac o'i sedd ar y Pwyllgor Adnoddau hefyd) ac o gadeirio Fforwm Rhanbarthol gogledd-ddwyrain Cymru. Hefyd, cyfeiriodd y Cadeirydd at gerdyn a anfonwyd gan Gerry Jenson, yn diolch i'r Cyngor am ei ddymuniadau gorau wrth iddi roi'r gorau i'w rôl fel llywodraethwr ac yn diolch am y talebau ar gyfer pryd bwyd a dderbyniodd oddi wrth AOC|ALW.

**Cofnod 3 – Astor Fields, diweddariad ar eiddo yn Harlech:** roedd y cyngor a roddodd y Cyngor yn ei gyfarfod blaenorol ar sut i ymdrin â mater y llechfeddiant gan adeilad yn Astor Fields (i'r gogledd o dref Harlech) wedi'i ddilyn. Roedd Cymdeithas Tai Grŵp Cynefin yn talu costau ein cyfreithwyr, Eversheds, ar gyfer y mater.

## 8. Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr Uwch Dîm Rheoli, 2018-19

Roedd y papur hwn yn cynrychioli adroddiad diwedd blwyddyn: roedd wedi'i ddsbarthu'n hwyrach na'r bwndel o ddogfennau eraill ac fe'i gosodwyd ar y bwrdd yn ychwanegol. Trafodwyd un pwynt, sef ai doeth fyddai parhau o dan 1.1 â tharged o 5% ar gyfer darpariaeth ddwyieithog/cyfrwng Cymraeg yn 2019-20, o ystyried mai 1% yn unig oedd y cyfanswm a gyflawnwyd y flwyddyn gynt. Esboniwyd bod y penderfyniad i'w gadw yn un pwrpasol, gan ddarparu targed a fyddai'n heriol er mwyn aeiladu ar waith maes y flwyddyn gynt. Roedd hynny'n fater a drafodwyd yn rheolaidd yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Uwch Dîm Rheoli.

## 9. Fframwaith Hunanasesu Llywodraeth Cymru ar Effeithiolrwydd Llywodraethu

Astudiwyd drafft terfynol taenlen orffenedig y weithred hunanasesu wirfoddol hon. Daeth yr un sylw arno gan y Cadeirydd, a oedd o'r farn y dylai mwy o enghreifftiau yn ategu'r datganiadau gwerthuso gael eu dyfynnu yng ngholofn y 'ffynonellau tystiolaeth'. **Pe bai sylwadau manwl pellach gan unrhyw aelod o'r Cyngor, dylid anfon y rhain drwy e-bost at Stephen Thomas erbyn 20 Rhagfyr 2019.**

## 10. Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 30 Medi 2019

Nododd y Cyngor y cofnodion o ddeufis ynghynt, a'r ffaith bod y Pwyllgor yn cyfarfod unwaith eto'r wythnos ganlynol, yng Nghaerdydd.

## 11. Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2019

Cafodd Caroline Davies ei sefydlu'n ffurfiol yn Gadeirydd y Pwyllgor yn y cyfarfod hwn. Roedd polisi a hyfforddiant ynghylch y Rhaglen Atal (Prevent) wedi bod yn rhan sylweddol o drafodaethau: cadarnhawyd bod 100% o'n tiwtoriaid wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein ar ei gyfer erbyn hyn a bod adran newydd ar wefan AOC|ALW ar gael ar y mater. O ran dogfen y polisi a'r weithdrefn ynghylch Atal, byddai geiriad diwygiedig, gyda chyfaddawd, yn mynd gerbron cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau'r wythnos ganlynol i'w gymeradwyo'n derfynol. Cafwyd ymateb mwy cadarnhaol tuag at ein hymagwedd at Atal yn arolygiad diweddar Estyn o addysg oedolion Gwynedd a Môn nag yn ystod ei arolygiad cenedlaethol ddechrau 2019. Roedd papur briffio gan y Sefydliad Addysg a Hyfforddiant ar 'What governors and board members need to know about the Prevent duty' wedi'i ddsbarthu gyda'r papurau. Byddai wythnos gyntaf Rhagfyr yn Wythnos Ymwybyddiaeth Atal yn y Sefydliad ac, yn rhan ohoni, byddai **modiwl hyfforddiant ar-lein ar Atal i lywodraethwyr ei gwblhau'n cael ei ddsbarthu gan Stephen Thomas.**

Nodwyd y cofnodion yn eu cyfanrwydd, ynghyd â'r Adroddiad amgaeedig ar y Cwricwlwm ar gyfer Hydref 2019.

## 12. Adborth ar gyfarfod y Cyngor

Bu'r agweddau technolegol ar y cyfarfod yn rhannol llwyddiannus yn unig. Methodd un dolen fideo (i gartref Sonia Reynolds) weithio. Yn y swyddfa yng Nghaerdydd, cafwyd rhai problemau sain ac ni fu'n bosibl dangos cyflwyniadau'r ddau ymgynghorydd yn fyw yno. At hynny, dylai fod ail gyfieithydd ar y pryd wedi bod ar gael (neu dylid bod wedi canfod ateb technolegol ar gyfer y broblem honno) yn y lleoliad hwnnw, ac ni chynigwyd cinio i'r cyfranogwyr yno ychwaith.

## 13. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd cysylltiedig eraill a gadarnhawyd ar gyfer 2020

- Dydd Llun 27 Ionawr 2020: Caerdydd
- Dydd Iau 12 Mawrth: Y Drenewydd
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Dydd Iau 26 Mawrth: Merthyr Tudful
- Dydd Mercher 20 Mai: Glynebwy
- Diwrnod Cynllunio Strategol – Dydd Iau 2 Gorffennaf: Llandrindod
- Dydd Iau 23 Gorffennaf: Bangor

## PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Teitl y cofnod	Cam gweithredu y cytunwyd arno	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
-----------	----------------	--------------------------------	--------------------	-----------------------

Cofnod 2	Trafodaeth â'n grŵp gwâdd o ddysgwyr a'u tiwtor	Addawodd Michelle Kerswell fynd ar drywydd eu syniadau hyrwyddo, a'u hanesion fel astudiaeth(-au) achos posibl ar gyfer y Sefydliad.	MK	Mawrth 2020
Cofnod 3	Cyflwyniad gan Raoul Humphreys: Strategaeth Datblygu Busnes	Cytunwyd y byddai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Adnoddau yn edrych yn fanylach yn awr ar argymhellion y Strategaeth ac y byddent yn rhoi sylwadau pellach i'r Cyngor ar sail yr argymhellion.	KR / CH / MB / UDA / y Pwyllgor Adnoddau	Ionawr 2020
Cofnod 5	Adroddiad y Prif Weithredwr, Tachwedd 2019	Cytunwyd y byddai aelodau'r Cyngor yn cael copïau fel mater o drefn yn y dyfodol, fel rhan o'r broses o ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.	KR / CH	Ionawr 2020
Cofnod 9	Fframwaith Hunanasesu Llywodraeth Cymru ar Effeithiolrwydd Llywodraethu	Pe bai sylwadau manwl pellach gan unrhyw aelod, dylid anfon y rhain drwy e-bost at Stephen Thomas erbyn 20 Rhagfyr.	Aelodau'r Cyngor / ST	Rhagfyr 2019
Cofnod 11	Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2019	Byddai modiwl hyfforddiant ar-lein ar Atal i lywodraethwyr ei gwblhau'n cael ei ddsbarthu gan Stephen Thomas.	CH / ST	Rhagfyr 2019